# PWMPEN

## 1 HAU DY HADAU

Ym mis Mai, gelli di hau'r hadau 1cm o ddyfnder mewn potiau. Heua'r hadau ar eu hochr i stopio'r hadyn rhag pydru. Cadwa nhw'n gynnes yn y tŷ gwydr.


## 2 PLANNU ALLAN

Ym mis Mehefin, planna'r planhigion bach allan gan adael 90cm rhwng pob planhigyn.
Bydd pwmpenni'n ymledu ar draws neu i fyny ar strwythur cryf fel llwybr pwmpenni. Pan fydd y coesynnau'n 2m o hyd, pinsia bennau'r planhigyn i'w stopio rhag tyfu dail ac er mwyn iddyn nhw roi eu holl egni i gynhyrchu pwmpenni.

## 3 CYNAEAFU

Tapia'r bwmpen. Ydy hi'n swnio'n wag y tu mewn? Os ydy, dylai fod yn barod i'w hel! Rhwng mis Medi a mis Tachwedd, bydd y ffrwythau'n troi'n un lliw cyfoethog drostynt a bydd y croen yn gwrthsefyll cael ei dorri.

Torra'r bwmpen oddi ar y prif goesyn fel bod bonyn 10 cm arno. Gadawa hi i galedu yn yr haul neu mewn ystafell sych. Mae'r broses hon yn gadael i groen y bwmpen galedu er mwyn gallu ei storio'n hirach.




## COFIA

Rho'r pwmpenni ar deilsen neu ddarn o bren. Fe allan nhw bydru os byddi di'n eu gadael nhw i orffwys ar wyneb y pridd.

I gael pwmpenni mwy, tynna unrhyw goesynnau newydd a chadw dim ond 1 neu 2 o ffrwythau ar bob planhigyn. Fel hyn, bydd y planhigyn yn canolbwyntio'i holl egni ar ychydig o ffrwythau ar y tro. Mae pwmpenni'n sychedig, felly rho ddigon o ddŵr iddyn nhw.



Newydd egino



Planhigyn ifanc



Barod i'w hel

CARDIFF CAERDYDD

All Saints Educational Trust

TREES FOR CITIES